

Mr Kevin Shields
Gofal Iechyd Meddwl (New Hall) Cyf
Tŷ Alexander
Parc Highfield
Llandyrnog
Sir Ddinbych
LL16 4LU

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
E-bost: John.powell@wales.gsi.gov.uk

1 Ebrill 2014

Annwyl Mr Shields,

Par: Ymweliad â New Hall ar 10, 11 a 12 Mawrth 2014

Fel y gwyddoch, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd ag ysbyty annibynnol New Hall ar 10, 11 a 12 Mawrth 2014. Tynnodd ein hymweliad sylw at feysydd nodedig yn cynnwys:

- Y gydberthynas dda a welsom rhwng cleifion a staff.
- Gwaith tîm effeithiol, yn enwedig gan y tîm amlddisgyblaethol.
- Nododd y cleifion fod ansawdd y bwyd yn dda.
- Yr amrywiaeth o weithgareddau ymarferol ac addysgol.
- Y system gadarn a'r cyfraddau presenoldeb da ar gyfer hyfforddiant gorfodol.
- Roedd y gwasanaeth eiriolaeth yn chwarae rhan fawr yn yr agwedd weithredol ar yr ysbyty, gan gynnwys presenoldeb yn y tîm amlddisgyblaethol.
- Roedd morâl y staff wedi gwella ers ein hymweliad diwethaf.
- Y buddsoddiad sylweddol mewn wardiau Clwyd ac Adferiad.

Tynnodd ein hymweliad sylw at nifer o broblemau hefyd. Rhoesom drosolwg ar lafar o'n pryderon i'ch rheolwr cofrestredig ar ddiwedd ein hymweliad ar 12 Mawrth 2014. Ceir crynodeb o'r rhain, sy'n cynnwys achosion o dorri rheoliadau, isod:

Mater o bryder	Rheoliad
1. Nid oedd lleoliad claf A yn New Hall yn addas ac roedd y claf yn cael gofal gan dri aelod o staff. Yn dilyn asesiad, roedd y claf wedi'i nodi fel rhywun yr oedd angen lleoliad diogelwch canolig arno. Rhaid symud claf GPW i leoliad diogelwch canolig ar frys. 2. Gwnaethom adolygu nifer o gofnodion cynlluniau gofal a nodwyd yr arsylwadau canlynol: a. Nid oedd cynlluniau gofal ar ôl rhyddhau ar gael ar gyfer claf A, B, C nac Ch. b. Roedd y siartiau arsylwadol ar gyfer claf A yn cynnwys sylwadau amhriodol ac nid oedd nifer sylweddol ohonynt wedi'u llofnodi gan y nyrs ag awdurdod. c. Nid oedd y cynlluniau gofal/asesiadau risg ar gyfer claf B, C ac Ch wedi'u gwerthuso yn unol ag amserlenni dynodedig. d. Nid oedd y nyrs ag awdurdod wedi cymeradwyo'r cofnodion arsylwadol ar gyfer claf B. Rhaid mynd i'r afael â'r holl feysydd a restrir uchod.	Rheoliad 15 (1) (a) a (b) Rheoliad 15 (1) (a) (b) a (c)
3. Nododd adolygiad o'r ystafell driniaeth/clinig ar ward Adferiad y canlynol: a. Nid oedd yr ystafell dros dro yn addas at y diben. Roedd lle yn brin iawn, roedd yr ardal yn cynnwys loceri'r staff ac roedd yr ystafell yn anniben iawn. b. Defnyddiwyd cypyrddau cegin i storio cyffuriau. c. Ni roddwyd Inswlin i glaf D ar ddau achlysur ac ni chofnodwyd unrhyw reswm dros beidio â'i weinyddu. d. Roedd meddyginiaeth prn ar gael ar gyfer Claf Dd nad oedd wedi cael ei gymryd ers cryn amser. Mae angen adolygu'r feddyginiaeth hon. e. Roedd y nyrs gofrestredig yn ei chael hi'n anodd gosod y silindr ocsigen i'w ddefnyddio. f. Roedd y siart meddyginiaeth ar gyfer claf G yn ddryslyd. Roedd yr amllder ar y siart wedi'i nodi mewn misoedd, fodd bynnag, ceir nifer	Rheoliad 15 (2) a (5) (a) a (b)

wahanol o ddiwrnodau mewn misoedd ac nid oedd esboniad gan y rhagnodwr mewn perthynas â hyn.	Rheoliad 26 (2) (a)
4. Roedd angen glanhau rhai ardaloedd o ward Glaslyn yn drylwyr. Roedd yr ardaloedd hyn yn cynnwys y popty/hob a llawr y gegin adsefydlu, llawr y gegin ar y llawr gwaelod a'r peiriant tostio.	Rheoliad 15 (1) (a) a (b) a 26 (2) (a)
5. Mae angen darparu generadur er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a chynnal gwasanaethau pe bai'r pŵer yn methu ar wardiau Clwyd/Adferiad. <i>Cawsom wybod yn ystod y sesiwn adborth fod hyn wedi'i gynnwys yn y gwaith adeiladu.</i>	Rheoliad 26 (2) (a)
6. Rhaid gwneud rhywfaint o waith adferol yn y gegin ar ward Adferiad er mwyn cuddio'r plastr a thrwsio'r gwaith pren.	Rheoliad 21 (2) (c)
7. Nid oedd ffeil personél y Cyfarwyddwr Meddygol yn cynnwys y wybodaeth ofynnol am gyflogaeth. Rhaid i'r wybodaeth reoleiddiol sydd ei hangen er mwyn cyflogi staff fod ar gael.	Rheoliad 20 (2) (a)
8. Mae system goruchwyllo staff ar waith, fodd bynnag, rhaid gwella presenoldeb mewn perthynas â'r system hon. Rhaid rhoi system oruchwyllo ar waith mewn ffordd gyson ar gyfer pob aelod o staff.	Rheoliad 15 (1) (a)
9. Rhaid gwella profiad cleifion amser bwyd. Gweinwyd brechdanau mewn bagiau papur ac roedd amllder y dewis o frechdanau ar y fwydlen yn amlwg. Rhaid gwella'r profiad cyfan amser bwyd er mwyn ategu'r cyfle therapiwtig rhwng cyfoedion, staff a chleifion.	

Mae'n ofynnol i chi gyflwyno cynllun gweithredu manwl i AGIC erbyn **22^{ain} Ebrill 2014** yn nodi'r camau gweithredu rydych yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â'r holl faterion uchod. Dylai'r cynllun gweithredu nodi amserlenni a manylion am y sawl fydd yn gyfrifol am fwrw ymlaen â'r cam gweithredu. Pan fydd AGIC wedi cytuno bod y cynllun yn briodol, bydd angen i chi roi diweddariadau misol ar eich cynnydd.

Ar ôl derbyn y llythyr hwn, bydd yn ofynnol i'r Darparwr Cofrestredig wneud sylwadau ar gywirdeb ffeithiol y materion y manylir arnynt a phan fyddwn wedi derbyn eich cynllun gweithredu, byddwn yn cyhoeddi copi o'r llythyr hwn, ynghyd â'ch cynllun gweithredu, ar ein gwefan.

Efallai y byddwn yn cynnal ymweliad arall i sicrhau bod y materion uchod wedi'u datrys yn briodol a byddwn yn cynnal ymweliadau mwy rheolaidd os byddwn yn

pryderu nad ydych yn bwrw ymlaen â'r camau gweithredu angenrheidiol mewn modd amserol.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os hoffech drafod cynnwys y llythyr hwn.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Mr John Bromfield, Rheolwr Ysbyty New Hall.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'J Powell'.

Mr John Powell

Pennaeth Rheoleiddio

cc – Mr John Bromfield, Ysbyty Annibynnol New Hall, New Hall Road, Rhiwabon,
LL14 6HB